



Arolwg mawr o anabledd dysgu

Cwestiynau a sy'n cael eu gofyn yn aml



Beth yw'r Arolwg mawr o anabledd dysgu?

Hwn yw'r arolwg mawr cyntaf o bobl ag anabledd dysgu mewn 15 mlynedd. Byddwn yn gofyn i lawer o bobl lenwi'r arolwg.

Basen ni'n hoffi gofyn cwestiynau i chi amdanoch chi a'ch bywyd. Mae'r cwestiynau yn ymwneud â materion y mae pobl ag anabledd dysgu wedi dweud wrthyn ni eu bod yn bwysig iddyn nhw. Rhai o'r materion yw iechyd, perthynas, gwaith a chael eich cynnwys.



Pwy sy'n cael cymryd rhan yn yr arolwg?

Cewch chi gymryd rhan yn yr arolwg os ydych chi'n oedolyn ag anabledd dysgu ac yn byw yn y DU.



Ydy rhywun yn gallu fy helpu i lenwi'r arolwg?

Ydy. Efallai y bydd arnoch chi angen rhywun i'ch helpu i ddarllen yr arolwg ac ateb y cwestiynau. Gallwch ofyn i weithiwr cefnogi, gofalwr, aelod o'r teulu, ffrind neu rywun arall i'ch helpu.

Ond ddylen nhw ddim dweud wrthyh chi pa atebion i'w dewis, oherwydd mae arnon ni eisiau gwybod beth rydych **chi** yn ei feddwl.



Pam y mae'r arolwg yn bwysig?

Bydd hyn yn gyfle i chi ddweud wrthyn ni am eich bywyd a'ch profiadau. Byddwn ni'n gofyn cwestiynau am faterion y mae pobl ag anabledd dysgu wedi dweud wrthyn ni eu bod yn bwysig iddyn nhw, fel iechyd, perthynas a chael eich cynnwys.

Bydd y canlyniadau'n helpu Mencap i roi gwell cefnogaeth i bobl ag anabledd dysgu. Fe fyddwn ni'n defnyddio eich atebion i helpu i wneud bywyd yn well i bobl ag anabledd dysgu.



Sut wnaeth Mencap wneud yr arolwg?

Fe dalon ni i grŵp o bobl ag anabledd dysgu i'n helpu ni i wneud yr arolwg. Fe siaradon ni â nhw am faterion sy'n bwysig i bobl ag anabledd dysgu.



Fe helpon nhw ni i ddewis pa gwestiynau i'w cael yn yr arolwg. Fe helpon nhw i wneud yr arolwg yn fwy hawdd ei ddeall. Fe helpon nhw ni i ddewis pa luniau i'w defnyddio.

Mae gennym ni hefyd berson ag anabledd dysgu yn y tîm Ymchwilio yn gweithio ar yr arolwg. Fe helpodd gweithwyr proffesiynol eraill, academyddion a gweithwyr cefnogi ni i wneud yr arolwg hefyd.



Sut fydd Mencap yn rhannu'r pethau mae'n nhw'n cael gwybod amdany'n nhw?

Fe fyddwn ni'n ysgrifennu adroddiad am y pethau rydyn ni'n cael gwybod amdany'n nhw. Fe fyddwn ni'n rhannu'r adroddiad gyda mudiadau eraill. Fe fyddwn ni hefyd yn rhannu'r adroddiad ar ein gwefan a'r cyfryngau cymdeithasol (pethau fel Twitter a Facebook).



Fyddwch chi'n defnyddio fy enw i yn yr adroddiad?

Na fyddwn, fyddwn ni ddim yn defnyddio eich enw yn yr adroddiad. Mae eich atebion i'r arolwg hwn yn gyfrinachol. Mae hyn yn meddwl na fyddwn ni'n defnyddio eich enw pan fyddwn ni'n rhannu'r pethau rydyn ni wedi cael gwybod amdany'n nhw.



Oes raid i mi gymryd rhan yn yr arolwg?

Nac oes. Does dim rhaid i chi gymryd rhan yn yr arolwg os nad oes arnoch chi eisiau. Os byddwch chi'n newid eich meddwl yn ystod yr arolwg, gallwch roi'r gorau iddi.



Oes fersiwn Cymraeg o'r arolwg ar gael?

Oes. Gallwch lenwi'r fersiwn Cymraeg o'r arolwg ar-lein yma:

<https://www.surveymonkey.co.uk/r/arolwg-mawr-o-anabledd-dysgu>

I gael copi papur o'r arolwg Cymraeg, e-bostiwch research@mencap.org.uk neu ffoniwch 0207 696 5524. Neu gallwch chi ysgrifennu aton ni:

Dr Carla Barrett
Research Team
Mencap Centre of Engagement
123 Golden Lane
London
EC1Y 0RT



Mae gen i gwestiwn arall. I bwy dylwn i ofyn?

Cysylltwch â'r ymchwilwyr os oes gennych chi unrhyw gwestiynau am yr arolwg hwn.

Gallwch e-bostio research@mencap.org.uk neu ffonio 0207 696 5524.



cafodd 'photosymbols'
eu defnyddio